Polisi Diogelu Gwybodaeth

Fel ysgol rydym yn cadw a thrin llawer o wybodaeth am unigolion. Mae'r wybodaeth hon wedi ei storio ar ffurf papur ac mewn ffurf electronig.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel a'i bod yn cael ei thrin yn gywir gan y bobl hynny yn unig sydd â hawl i weld y data hynny.

Argymhellir bod staff yn cyfeirio at bolisïau cenedlaethol ar ddiogelu gwybodaeth unigolion ar ffurfiau papur ac electronig a bod yr ysgol yn cefnogi'r canllawiau hyn.

Yn Ysgol Gyfun Rhydywaun, disgwylir i staff ddilyn y canllawiau isod.

Trin Gwybodaeth ar bapur
Dylid sicrhau fod unrhyw wybodaeth bersonol staff a disgyblion[1] yn cael ei gadw mewn man diogel ac na all unigolion weld y wybodaeth hon heb awdurdod.

Dylid sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei gludo'n ddiogel os yw'n gadael safle'r ysgol ac nad yw unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu bersonol yn cael ei adael ar ddesg lle mae modd i eraill ei weld.

Mae hawl gan athrawon i weld canlyniadau asesiadau neu unrhyw wybodaeth academaidd disgyblion yn yr ysgol. Maent hefyd â'r hawl i weld unrhyw wybodaeth fugeiliol a ddiffinnir yn berthnasol iddynt wybod ar gyfer dysgu'r disgybl, e.e. os oes problem feddygol, cofnod disgyblaeth ayb.

Weithiau cedwir rhai darnau o wybodaeth, e.e. gwybodaeth am gefndir teuluol neu achosion o gam-drin ayb yn gyfrinachol. Cyfrifoldeb yr Arweinydd Cynnydd a Lles, mewn cydweithrediad â'r TRU, yw darogan pa wybodaeth dylid ei ddatgelu a dylai fod er fudd addysgiadol yn unig.

Gwybodaeth Electronig
Rhaid sicrhau bod gwybodaeth a storiwyd am, a chan ddisgyblion a staff, yn cael ei gadw'n gyfrinachol hefyd.

Cedwir data personol staff a disgyblion ar rwydwaith weinyddol. Nid oes mynediad gan ddisgyblion i'r wybodaeth hon. Rhannau yn unig o'r wybodaeth sydd ar gael i staff drwy'r system SIMS. Rheolir mynediad i'r wybodaeth hon yn sgil dyletswyddau'r aelod o staff.

Cedwir gwybodaeth arall ar rwydwaith gwricwlwm yr ysgol. Nid oes mynediad i'r rhwydwaith o du fas yr ysgol gan staff yr ysgol.

[1] Gweler Atodiad 1 ar gyfer diffiniadau gwybodaeth bersonol disgyblion a staff.

Mae'r mynediad i'r rhwydwaith wedi ei ddiogelu gan gyfrineiriau. Hefyd, nid yw disgyblion â hawl defnyddio cyfrifiaduron heb ganiatâd neu oruchwyliaeth aelod o staff.

Canllawiau ar gyfer diogelu gwybodaeth
Cyfeirir at y ddogfen "chwe rheol syml" gyhoeddir gan BCBC sydd yn amlinellu arfer dda o ran diogelu data.

Isod ceir crynodeb o'r rheolau a'r canllawiau:

- Rhaid sicrhau nad oes modd i eraill wybod cyfrineiriau unigolion.
- Dylid newid y cyfrineiriau'n achlysurol.
- Cadwch unrhyw offer cyfrifiadurol yn ddiogel; sicrhewch fod drysau ystafelloedd wedi eu cloi, bod unrhyw offer cludadwy mewn ystafell, stordy neu gwpwrdd sydd hefyd wedi ei gloi. Disgwylir i staff ddilyn yr un rheolau ar gyfer offer caiff ei gludo o gwmpas neu oddi ar y safle, e.e. camerâu neu gliniaduron.
- Nid oes hawl i bobl nad ydynt yn aelodau o staff neu ddisgyblion ddefnyddio offer sydd â data personol arnynt oni bai eu bod yn cael eu goruchwylio.
- Rhaid sicrhau fod unrhyw ddata sydd wedi ei storio ar offer cludadwy wedi ei amgryptio a 'i ddiogelu â chyfrinair neu ddull arall o ddiogelu data, e.e. dull biometrig.

Rhaid i gyfrifiaduron cael eu cloi os nad ydynt dan oruchwyliaeth.

Nid oes hawl gan staff i gludo gwybodaeth bersonol disgyblion neu staff ar offer cyfrifiadurol sydd heb ei ddiogelu. O ganlyniad, os yw staff yn cludo data personol, e.e. asesiadau disgyblion gartref, rhaid iddynt naill ai storio hyn ar gliniadur sydd wedi ei amgryptio neu ar yrwyr fflach sydd wedi eu darparu gan yr ysgol.

Mae'r gyrwyr hyn yn cynnwys dull biometrig o ddiogelu'r data.

Dylai staff sicrhau fod unrhyw wybodaeth bersonol a storiwyd gartref wedi ei ddiogelu mewn ffordd briodol ac nad oes modd i ddefnyddwyr eraill weld y data hwn.

Defnyddio Rhwydwaith, Systemau ac Offer yr Ysgol
Dylai offer yr ysgol gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith ysgol. Serch hynny, cydnabyddir fod yna achosion pan fydd offer yn cael ei ddefnyddio ar adegau er lles personol, e.e. ysgrifennu llythyr personol, cyrchu gwefan er mwyn darganfod gwybodaeth, cyrchu gwefan er mwyn darllen e-byst personol.

Caniateir i staff ddefnyddio rhwydwaith, systemau ac offer[2] yr ysgol er lles personol dan yr amodau canlynol yn unig:

- Nid yw'r defnydd yn dirywio'r offer a defnyddiwyd.
- Nid yw'r defnydd yn amharu ar ddysgu ac addysgu.
- Bod y defnydd yn digwydd yn ystod amser rhydd.

[2] Golyga hyn ddefnydd o'r Rhyngrwyd, argraffwyr, llungopiwr ayb.

- Bod y defnydd yn berthnasol ac yn gyfreithlon.
- Bod y defnydd o fewn disgwyliadau ymddygiad proffesiynol a moesol aelod o staff sydd yn gweithio mewn ysgol.
- Nid yw'r defnydd o dreulion yn peri cost sylweddol i'r ysgol. Er enghraifft, caniateir argraffu rhai tudalennau o wefan ar gyfer hawlio gwyliau, ond ni chaniateir argraffu degau o dudalennau neu lungopïo degau neu gannoedd o dudalennau er lles personol. Caniateir defnyddio camera digidol yr ysgol o dan y rheoliadau uchod ond eto dylai'r aelod o staff brynu batrïau newydd ayb.

Defnydd o yrwyr fflach a disgiau cyfrifiadurol
Nid oes hawl gan staff i gludo data personol ar ffurf electronig o'r ysgol neu i'r ysgol heb ei fod wedi ei amgryptio oni bai ei fod yn bosib cadarnhau diogelwch y wybodaeth hynny i'r un lefel o ddiogelwch â phetai'r data wedi ei storio ar ffurf papur.

Mae hawl defnyddio gyrwyr neu ddisgiau sydd heb eu hamgryptio os ydynt yn storio data nad yw'n bersonol, e.e. taflenni gwaith, polisïau ayb.

Darperir gyrwyr fflach a chliniaduron i staff sydd gyda meddalwedd amgryptio arnynt.

Os yw disgybl yn dod â gyrrwr fflach i'r ysgol, nid oes hawl defnyddio hwn heb arolygaeth athro.

Monitro Defnydd Systemau Cyfrifiadurol
Gweithreda'r ysgol system o fonitro defnydd systemau cyfrifiadurol yn yr ysgol o'r enw Securus. Mae hyn yn system sydd yn darllen yr hyn arddangosir ar sgrin gyfrifiadurol yn yr ysgol a gwirio hyn yn erbyn data-bas o eiriau a datganiadau. Os yw gair yn ymddangos yn y data-bas, caiff lun ei dynnu o'r sgrin a'i storio.

Caiff y wybodaeth hon ei monitro'n achlysurol gan y Rheolwr Rhwydwaith.

Pwrpas y system yw sicrhau diogelwch disgyblion ac i sicrhau nad yw'r system yn cael ei ddefnyddio ar gyfer bwlio neu bethau anweddus.

Caiff unrhyw achosion a ddatgelir o unigolion yn torri rheolau defnydd perthnasol y system eu harchwilio gan ddefnydd tystiolaeth o'r system Securus.

Mynediad i fannau storio staff a disgyblion
Mae gan athrawon yr hawl i weld gwaith disgyblion. Gwelir fod hyn yn hanfodol yn yr un ffordd â bydd athro'n cael yr hawl i weld llyfrau gwaith disgyblion.

Mewn unrhyw sefydliad mae yna o leiaf un unigolyn sydd â mynediad i'r system gyfan. Defnyddir yr hawl hwn yn unig gyda chaniatâd yr aelod o staff neu drwy hysbysu staff, e.e. bod ffeil wedi ei gopïo draw i weithle aelod o staff ayb.
Ar gyfer 2008-09, dyma restr o'r bobl sydd â mynediad i'r system gyfan:

Mark Jones (Pennaeth)
*Ian Dennett (Rheolwr Rhwydwaith)**

Feirysau, "Adware" a Sbam
Mae gan yr ysgol feddalwedd wrth-firws ar bob cyfrifiadur a chliniadur. Mae'n ddyletswydd ar holl ddefnyddwyr systemau'r ysgol i geisio lleihau'r siawns o lygru systemau'r ysgol â firws.

Ceir hidlo ar wefannau trwy system hidlo'r Cyngor Sir.

Os yw aelod o staff yn derbyn e-bost ar ffurf sbam, dylent ei ddileu*. Os oes sawl e-bost anweddus yn cael eu hanfon, dylid rhoi gwybod i'r Rheolwr Rhwydwaith yn syth.

Lluniwyd: Mai 2016

Cytundeb Diogelu Gwybodaeth Bersonol

Deallaf gynnwys y polisi hwn a chytunaf i ddilyn y canllawiau a nodwyd yn y polisi Diogelu Gwybodaeth.

Cytunaf hefyd i ddefnyddio offer cyfrifiadurol yr ysgol yn ôl y canllawiau a nodwyd.

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Atodiad 1: Gwybodaeth Bersonol

Nid yw'r rhestr isod yn drwyadl ond yn hytrach yn nodi enghreifftiau o wybodaeth sydd yn bersonol neu'n gyfrinachol.

- Manylion cyswllt: cyfeiriad, rhif ffôn, ayb
- Dyddiadau geni
- Gwybodaeth feddygol
- Asesiadau mewn pynciau
- Gwybodaeth fugeiliol
- Lluniau, fideo neu recordiad sain staff neu ddisgyblion.